

## CYPE(6)-25-22 - Papur i'w nodi 5

Lynne Neagle AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jayne Bryant AS,  
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Jayne

Rwy'n ysgrifennu i roi hysbysiad cynnar ichi am Offeryn Statudol (OS) diwygio ar gyfer Prydain Fawr o'r enw Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a fydd yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar (14 Rhagfyr 2022) i ddod i rym ar 18 Ionawr 2023, ac eithrio'r diwygiad i ddiweddarau'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd, a ddaw i rym ar 11 Gorffennaf 2024 i ganiatáu cyfnod pontio 18 mis.

Bydd yr OS arfaethedig yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol i wneud newidiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

- Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/651) fel y'u diwygiwyd,
- Rheoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 12 Mehefin 2013 ynghylch bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/52/EEC, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 96/8/EC, 1999/21/EC, 2006/125/EC a 2006/141/EC, Cyfarwyddeb 2009/39/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 41/2009 ac (EC) Rhif 953/2009<sup>1</sup>,

<sup>1</sup> Rheoliad yr UE a ddargedwir fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a 2020

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales](mailto:Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/127 o 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac ynghylch gofynion o ran gwybodaeth sy'n ymwneud â bwydo babanod a phlant ifanc, a
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/128 o 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer bwyd at ddibenion meddygol arbennig.

Bydd y diwygiadau hyn yn:

- diweddarau'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddarau'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer sinc mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddarau'r ffurfiau o niasin a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys nicotinamid ribosid clorid
- diweddarau'r ffurfiau o fagnesiwm a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys magnesiwm citrad malad
- diweddarau'r ffurfiau o ffolad a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol i gynnwys calsiwm L-methylfolad
- diweddarau'r ffurfiau o ffolad a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod i gynnwys calsiwm L-methylfolad
- safoni'r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol a
- safoni'r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig a ddatblygir i fodloni gofynion maethol babanod a phlant ifanc.

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygiad a chymhlethdod diangen o'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS i'r DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd. Yn y sefyllfa hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing